PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 12 IONAWR 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Stubbs(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Humphreys, Ahmed, Hunt, Joyce, Michael, Reid-Jones, Robson, Sattar a/ac Wong |

64 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

65 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â’r Cod Ymarfer Aelodau.

| CYNGHORWYR | RHIF EITEM | NATUR Y BUDDIANT |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Irene Humphreys | Eitem 5b 22/02280/FUL | Personol a Rhagfarnol - yn eistedd ar y Cyngor Iechyd Cymuned |
| Y Cynghorydd Irene Humphreys | Eitem 5c 22/02184/OUT | Personol a Rhagfarnol - yn eistedd ar y Cyngor Iechyd Cymuned. |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | Eitem 5b 22/02280/FUL | Personol a Rhagfarnol – wedi mynegi barn yn flaenorol mewn perthynas â cheisiadau yn ymwneud ag Ysbyty'r Eglwys Newydd |

66 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

67 : DEISEBAU

1. 22/0254/VAR, 32 St Anthony Road, Y Mynydd Bychan
2. 22/02280/FUL, Ysbyty’r Eglwys Newydd, Heol y Parc
3. 22/02184/OUT, Tir i'r De-orllewin o Ganolfan Park View, ger Hyb Treláі a Chaerau, Treseder Way, Caerau

Mewn perthynas â’r uchod, siaradodd y deisebwr ar 2 a 3 ac ymatebodd yr asiantau.

68 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu a gyflwynwyd yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990:

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniadau'n unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

## CEISIADAU A GYMERADWYWYD

22/02280/FUL – YR EGLWYS NEWYDD A THONGWYNLAIS
YSBYTY'R EGLWYS NEWYDD, HEOL Y PARC

Llwybr mynediad dros dro at waith adeiladu safle cymeradwy Canolfan Ganser Felindre. Yna bwriedir troi'r rhan gysylltu rhwng y gogledd a'r de i ddarparu mynediad brys diwygiedig ar gyfer Canolfan Ganser Felindre cymeradwy.

Dylid **CYTUNO** rhoi caniatâd cynllunio, yn amodol ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn llythyr cadarnhau gan Weinidogion Cymru nad yw'r penderfyniad wedi'i alw i mewn, ac mae'n awdurdodi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i roi caniatâd cynllunio yn unol â'r Cyfarwyddyd dyddiedig 12 Ionawr 2023 a wnaed o dan Erthygl 18 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

Yn amodol ar ddiwygiad i Amod 1 sydd i ddarllen:
'Bydd pob defnydd cerbydol o'r ffordd dros dro a ganiateir drwy hyn yn digwydd erbyn 30 Tachwedd 2026 fan bellaf, ac wedi hynny heb fod yn hwyrach na 30 Ionawr 2027 (neu cyn y defnydd buddiol cyntaf o'r Ysbyty Gofal Canser newydd pa un bynnag ddaw gyntaf) bydd lled y ffordd wedi'i leihau ac yn parhau i fod yn dir wedi'i adfer/tirwedd yn unol â'r cyfeirnod cynllun Tirwedd cymeradwy 70066877-WSP-EV-DR-LA-P1-5101 REV PO1 a'r trefniant/manylion cyffredinol a gymeradwywyd o dan amod 3. Bydd y mynediad ar ôl hynny yn cael ei gadw yn ei ffurf gymeradwy.

## CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

22/02542/VAR – MYNYDD BYCHAN
32 ST ANTHONY ROAD

Amrywio Amod 3 o 20/01075/MNR, i ymestyn oriau masnachu dydd Mercher i ddydd Sadwrn rhwng 7:00pm a 9:00pm.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

22/02184/OUT – CAERAU
22/02184/OUT, TIR I'R DE-ORLLEWIN O GANOLFAN IECHYD PARK VIEW, GER HYB CYMUNEDOL TRELÁI A CHAERAU, TRESEDER WAY

Hyb Iechyd a Lles arfaethedig a gwaith seilwaith cysylltiedig yn ymwneud â mynediad, parcio, draenio a thirwedd.

RHESWM: Er mwyn i ymweliad safle â'r lleoliad hwn gael ei gynnal.

69 : ADRAN 257 DARGYFEIRIAD LLWYBR TROED RADUR 42

Cafodd yr adroddiad ei ohirio tan 2 Chwefror 2023.

70 : CEISIADAU WEDI'U PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd

71 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod

72 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Iau 2 Chwefror 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm